**Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad**
**Systemau a ffiniau etholiadol**
**ESB 05 Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru**


Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 0BL

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
Local Democracy and Boundary Commission For Wales

Hastings House
Fitzalan Court
Cardiff
CF24 0BL

E-bost:
ymholiadau@ffiniau.cymru
www.cffdl.llyw.cymru

☎ (029) 2046 4819
Ffacs/Fax (029) 2046 4823

E-mail:
enquiries@boundaries.wales
www.ldbc.gov.wales


Dawn Bowden AC
Cadeirydd, Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pierhead Street
Caerdydd
CF99 1NA

19 Chwefror 2020

Annwyl Ms Bowden AC,

Diolch i chi am y gwahoddiad i ddarparu ymateb i'r ymgynghoriad ar yr Ymchwiliad i'r Systemau a Ffiniau Etholiadol.

Ar ôl ystyried Cylch Gorchwyl a chylch gwaith y Comisiwn, teimlwyd mai'r mewnbwn mwyaf priodol fyddai rhoi cipolwg i'r Pwyllgor o drefniadau gweithredol y Comisiwn wrth gynnal yr Ysgrifenyddiaeth.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw fecanwaith deddfwriaethol ar gyfer cynnal arolwg o etholaethau'r Senedd ac mae sylwadau wedi'u cynnwys yn ymateb y Comisiwn er mwyn tynnu sylw at ystyriaethau y dylid eu rhoi wrth ddrafftio'r gyfryw ddeddfwriaeth.

Pe bai deddfwriaeth yn cael ei drafftio i gyfarwyddo'r arolwg o etholaethau'r Senedd, mae'r Comisiwn o'r farn fod ganddo'r staff cymwys a phrofiadol i weithredu fel Ysgrifenyddiaeth Comisiwn o'r fath.

Mae pob croeso i chi gysylltu â'r Comisiwn pe bai angen gwybodaeth ac eglurhad ychwanegol arnoch.

**Shereen Williams**

*Prif Weithredwr / Chief Executive*
Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
Local Democracy and Boundary Commission for Wales

**Ymchwiliad i Systemau a Ffiniau Etholiadol**
**Cyflwyniad Tystiolaeth Ysgrifenedig**

## Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (Y Comisiwn)

1. Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a sefydlwyd yn ei ffurf wreiddiol gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac o dan ei enw a'i swyddogaethau presennol gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) Cymru 2013. Dyletswydd y Comisiwn o dan y ddeddfwriaeth yw monitro'r ardaloedd a'r trefniadau etholiadol sy'n berthnasol i lywodraeth leol yng Nghymru at y diben o ystyried p'un a yw'n briodol gwneud neu argymell newidiadau. Wrth gyflawni ei ddyletswyddau, mae'n rhaid i'r Comisiwn geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

2. Mae fframwaith wedi cael ei gytuno rhwng y Comisiwn a'i Is-adran Noddi yn Llywodraeth Cymru (yr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol). Mae hwn yn amlinellu'r fframwaith y mae'r Comisiwn yn gweithredu o'i fewn ac yn manylu ar y telerau a'r amodau sy'n rheoli sut mae Gweinidogion Cymru'n darparu cymorth grant i'r Comisiwn.

3. Bob blwyddyn, mae Gweinidogion Cymru yn gosod nodau polisi'r Llywodraeth a'i meysydd ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol trwy gyfrwng Llythyr Cylch Gorchwyl at y Comisiwn. Mae'r llythyr Cylch Gorchwyl hefyd yn cynnwys manylion y ffigur cymorth grant a bleidleisiwyd a chyfansymiau rheolaeth gyllidebol cysylltiedig ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod.

   Mae Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn hefyd yn cynorthwyo'r Comisiwn Ffiniau i Gymru sy'n gyfrifol am arolygu etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig yng Nghymru. Ariennir yr Ysgrifenyddiaeth ar wahân gan Swyddfa'r Cabinet ar gyfer y gwaith hwnnw. Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi cyflwyno ymateb ar wahân.

   *Os oes dull gweithredu 'Comisiwn' tebyg i'w ddefnyddio ar gyfer cynnal arolygon o etholaethau'r Senedd, mae'r profiad a'r arbenigedd gan yr Ysgrifenyddiaeth o gynorthwyo Comisiwn Ffiniau Senedd. Dylid ystyried pethau ymarferol fel y trefniadau darparu adnoddau, nifer y Comisiynwyr ac unrhyw ofynion ychwanegol e.e. penodiadau Comisiynwyr Cynorthwyol, rôl Swyddog Cyfrifyddu ac ati. Gall y ddeddfwriaeth naill ai gynnwys paramedrau'r etholaethau (yn gyson â'r ddeddfwriaeth seneddol) neu gyfarwyddo'r Comisiwn Ffiniau Senedd i ddatblygu polisi ac arfer sy'n pennu'r paramedrau (sydd ar waith ar hyn o bryd yn yr arolygon etholiadol).*

## Arolygon a Systemau Pleidleisio

4. Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Deddf 2013) yn mynnu bod y Comisiwn yn cynnal arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer pob prif ardal o leiaf unwaith bob deng mlynedd. Dechreuodd y cyfnod deng mlynedd ar ddechrau mis Hydref 2013 a daw i ben ar ddiwedd mis Medi 2023.

5. Yn dilyn cais gan Weinidogion i atal dechrau'r rhaglen, ym Mehefin 2016 ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar y pryd at y Comisiwn i ofyn iddo ddechrau rhaglen o arolygon etholiadol i'w chwblhau mewn pryd ar gyfer etholiadau llywodraeth leol 2022.

6. Mae Polisi ac Arfer presennol y Comisiwn ar gyfer Rhaglen Arolygon Etholiadol 2017 yn seiliedig ar system 'Y Cyntaf i'r Felin'. Mae'r polisi hwn yn darparu ar gyfer gwneud argymhellion y bydd pob ward etholiadol yn cael ei chynrychioli gan rhwng un a phedwar aelod, gan ddibynnu ar nodweddion y ward.

7. Ar hyn o bryd, mae cynigion deddfwriaethol cyfredol i alluogi prif gynghorau i ddewis naill ai'r system Y Cyntaf i'r Felin neu 'Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy' ar gyfer cylchoedd etholiadol yn y dyfodol.

   *Mae'r Comisiwn yn cynnal arolygon ar sail y systemau etholiadol a bennir yn y ddeddfwriaeth ac nid yw'n ffafrio nac yn argymell dim mewn perthynas â'r mater hwn. Bydd y Comisiwn yn cael ei arwain gan y system sydd wedi'u nodi mewn deddfwriaeth wrth gynnal arolygon. Materion i'w hystyried yn benodol os defnyddir y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy yw isafswm ac uchafswm nifer yr aelodau ar gyfer etholaethau arfaethedig, a'r dyraniad seddi rhanbarthol ar gyfer etholaethau'r Senedd.*

**<u>Rôl Comisiynwyr</u>**

8. Caiff y Cadeirydd a'r Comisiynwyr eu penodi gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a gwneir y penodiadau yn unol â chod ymarfer y Comisiynydd penodiadau cyhoeddus. Mae Adran 4(1) o Ddeddf 2013 yn datgan fod cyfansoddiad y Comisiwn yn cynnwys Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a dim mwy na thri Aelod arall.

9. Rôl y Comisiynwyr yw:

   - darparu arweinyddiaeth effeithiol; diffinio a datblygu cyfeiriad strategol a gosod amcanion sy'n cynnig her;
   - hyrwyddo safonau uchel ar gyfer cyllid cyhoeddus, a chynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian;
   - sicrhau bod gweithgareddau'r Comisiwn yn cael eu cynnal yn effeithlon ac effeithiol; a
   - monitro perfformiad i sicrhau bod y Comisiwn yn bodloni ei nodau, amcanion a thargedau perfformiad yn llawn;
   - cynrychioli barnau'r Comisiwn i'r cyhoedd a'i randdeiliaid;
   - sicrhau gwella a chynnal enw da'r Comisiwn drwy weithredoedd a phenderfyniadau'r Comisiwn a'r ffordd y caiff y rhain eu cyfleu i randdeiliaid.

10. Yn benodol, mae'r Comisiynwyr yn gyfrifol am:

- bennu a dwyn yn eu blaen nodau ac amcanion strategol y Comisiwn yn gyson â'i ddiben cyffredinol ac o fewn y fframwaith polisi ac adnoddau a bennwyd gan y Gweinidog;
- sicrhau bod y Gweinidog yn cael gwybodaeth lawn am unrhyw newidiadau sy'n debygol o effeithio ar gyfeiriad strategol y Comisiwn neu ar y gallu i gyrraedd ei dargedau, a'r camau sydd eu hangen i ddelio â'r cyfryw newidiadau;
- sicrhau cydymffurfio ac unrhyw ofynion statudol neu weinyddol mewn perthynas â defnyddio cyllid cyhoeddus; ei fod yn gweithredu o fewn terfynau ei awdurdod statudol ac unrhyw awdurdod dirprwyedig a gytunwyd gyda'r adran noddi, ac yn unol ag unrhyw amodau eraill yn ymwneud â defnyddio cyllid cyhoeddus; a'i fod, wrth wneud penderfyniadau, yn ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru;
- sicrhau ei fod yn derbyn gwybodaeth ariannol yn ymwneud â rheolaeth y Comisiwn ac yn ei hadolygu'n rheolaidd; ei fod yn cael gwybod mewn modd amserol am unrhyw bryderon ynghylch gweithgareddau'r Comisiwn a'i fod, lle bo'n berthnasol, yn darparu sicrwydd cadarnhaol i'r Gweinidog drwy'r tîm noddi fod camau unioni priodol wedi'u cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon o'r fath;
- dangos safonau uchel o lywodraethu corfforaethol bob amser, yn cynnwys trwy ddefnyddio'r pwyllgor archwilio a sicrwydd risg i helpu'r Comisiynwyr i fynd i'r afael â risgiau ariannol allweddol a risgiau eraill.
- Yn ogystal, mae'r Comisiynwyr yn goruchwylio manylion pob arolwg unigol gan gymryd cydgyfrifoldeb am y cynigion a'r argymhellion ynddynt.

*Os yw Comisiynwyr i'w defnyddio ar gyfer arolygon o etholaethau Senedd, mae'n rhaid iddynt feddu ar ddealltwriaeth o lywodraethu sefydliadau'r sector cyhoeddus. Dylai fod gwybodaeth ganddynt hefyd* am gyd-destun a daearyddiaeth Cymru. *Dylid rhoi ystyriaeth ddyledus i'r Gymraeg hefyd. Dylid rhoi tâl i'r penodiadau hyn yn unol â lefelau tâl Penodiadau Cyhoeddus.*